nmc Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Cynllun Corfforaethol **2025-2026**



# Cynnwys


3 Ein cyd-destun

4 Canolbwyntio ar ein hamcan cyffredinol o ddiogelu'r cyhoedd

5 Ein map ffordd strategol

6 **Cam un**
Adfer:
sicrhau ffocws ar ein swyddogaethau rheoleiddio craidd

11 **Cam dau**
Sefydlogi ac ailadeiladu:
gosod y llwyfan ar gyfer twf cynaliadwy

13 **Cam tri**
Hybu a gwella:
adeiladu ar ein sylfeini sefydlog

15 Aros yn hyblyg

# Ein cyd-destun

Yn dilyn cyfres o heriau, megis yproblemau gyda'n diwylliant a amlygwyd gan adolygiad Nazir Afzal OBE y llynedd, rydym yn dechrau gweddnewid yr NMC – ac yn gweithio i adennill hyder yn ein gallu i ddiogelu'r cyhoedd drwy reoleiddio nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn effeithiol.

Mae ein cyd-destun yn heriol. Gwyddom y bydd y daith i sefydlu rheoleiddio cyflymach, tecach a mwy effeithiol sy'n cynnal arferion nyrsio a bydwreigiaeth da yn un gymhleth, o ystyried y pwysau sydd ar y system iechyd a gofal ehangach.

Mae'r gweithwyr proffesiynol a reoleiddir gennym yn ffurfio'r rhan fwyaf o'r gweithlu iechyd ac yn rhan hollbwysig o'r gweithlu gofal cymdeithasol. Maent yn hollbwysig i bobl a chymunedau ledled y DU. Maent o dan bwysau aruthrol ar hyn o bryd ac mae angen rheoleiddio proffesiynol effeithiol arnynt.

Rydym wedi gosod cynllun i drawsnewid yr NMC fel sefydliad addas ar gyfer y dyfodol, wedi'i ategu gan ein Cynllun Trawsnewid Diwylliant a'n Cynllun Addasrwydd i Ymarfer, a gweithgareddau trawsnewid eraill. Bydd hyn yn ein galluogi i ddod yn rheolydd dibynadwy sy'n cefnogi gweithwyr proffesiynol i gynnal safonau uchel o ymarfer er mwyn amddiffyn y cyhoedd a chynnal hyder yn y proffesiynau.



# Canolbwyntio ar ein hamcan cyffredinol o ddiogelu'r cyhoedd

Mae ein deddfwriaeth sefydlu, Gorchymyn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, yn nodi mai ein prif amcan yw diogelu'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys hybu a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth a chynnal safonau effeithiol.

Yn ystod y cyfnod nesaf hwn, bydd ein hadnoddau a'n hymdrechion yn canolbwyntio ar gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio craidd yn effeithiol: addasrwydd i ymarfer, gosod safonau, sicrhau ansawdd addysg, cofrestru ac ailddilysu.



# Ein map ffordd strategol

Rydym yn benderfynol o gyflawni'r newidiadau sydd eu hangen arnom yn ein diwylliant a'n prosesau rheoleiddio, ond ni fydd yn hawdd. Rydym wedi ymrwymo i fod yn dryloyw ynglŷn â'n dewisiadau a'n cynnydd, ac i gymryd agwedd fesul cam at yr hyn y gallwn ei wneud. Nid yw hyn yn golygu colli golwg ar brosiectau, cynlluniau a gweithgareddau tymor hwy nad ydynt yn cael sylw yma, ond mae'n golygu gwneud penderfyniadau anodd a realistig am ddilyniant ein gwaith, fel y gallwn ei wneud yn dda.

Rydym wedi rhannu ein taith wella yn dri cham:

- **Cam un**: Adfer
- **Cam dau**: Sefydlogi ac ailadeiladu
- **Cam tri**: Hybu a gwella

Byddwn yn gosod marcwyr clir i'n helpu i benderfynu pryd y gallwn ni symud o un cam i'r llall, a bob chwarter byddwn yn adolygu ac yn mireinio ar gyfer y cylch nesaf.



# Cam un

## **Adfer:** sicrhau ffocws ar ein swyddogaethau rheoleiddio craidd

Byddwn yn canolbwyntio ar ein swyddogaethau rheoleiddio craidd. Bydd ein dull yn ymateb i'n cyd-destun, adborth ac argymhellion newidiol gan randdeiliaid, gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol, y cyhoedd a chydweithwyr yr NMC.

Bydd angen i ni goladu, rhesymoli a blaenoriaethu unrhyw argymhellion pellach a ddaw o adolygiadau allanol a ragwelir i'n gwaith.



# Gan ddechrau eleni, byddwn yn canolbwyntio ar y meysydd adfer mwyaf hanfodol:



## 1.

## Adeiladu diwylliant newydd a gweithredu'r hyn a ddysgwyd o adolygiadau

Ers cyhoeddi'r Adolygiad Diwylliant Annibynnol a gynhaliwyd gan Nazir Afzal OBE a Rise Associates, rydym wedi bod yn gosod y sylfeini ar gyfer trawsnewid diwylliant a pherfformiad.

Bydd y trawsnewid hwn yn ein galluogi i gyflawni ein gwaith rheoleiddio i safon well. Er mwyn cyflawni hyn yn dda, byddwn yn ymdrechu i greu diwylliant sy'n gadarnhaol, yn rymusol ac yn gynhwysol - gan alluogi cydweithwyr i ffynnu waeth beth fo'u nodweddion neu gefndir.

Mae ein Cynllun Trawsnewid Diwylliant, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth, yn seiliedig ar chwe philer:

- Arweinyddiaeth gref ac effeithiol
- Gwneud penderfyniadau ar sail gwerthoedd
- Ymgorfforiу cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI)
- Sicrhau diogelwch seicolegol
- Mwynhau gwaith, a
- Tegwch rheoleiddiol.

## 2.
## Cryfhau arweinyddiaeth yn y sefydliad i ysgogi newid

Bydd tîm gweithredol sy'n newydd ar y cyfan a dull hyfforddi clir ar draws arweinyddiaeth y sefydliad yn ysgogi newid trwy arfogi ein rheolwyr i fod yn arweinwyr gwych.

Bydd hyn yn ein helpu i drawsnewid ein diwylliant, ag arfer gorau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) wrth wraidd popeth a wnawn. Bydd ein harweinwyr yn ysbrydoli ac yn galluogi eu timau i berfformio'n gyson ar lefel uchel.

## 3.
## Gwella ffitrwydd i ymarfer

Mae ffocws ein Cynllun Addasrwydd i Ymarfer ar gyflawni canlyniadau cyflymach, tecach a mwy effeithiol sy'n ystyried pawb dan sylw. Byddwn yn grymuso ein pobl ac yn defnyddio technoleg i wneud yn siŵr bod ein prosesau'n cefnogi'r bobl sy'n dibynnu arnom. Gwyddom fod angen i ni wella'n gyflym a datrys pryderon cyn gynted â phosibl heb roi gormod o faich ar ein cydweithwyr. Rydym yn gweld cynnydd tuag at ein targedau o gyrraedd penderfyniadau cyflymach a chau achosion o fewn 15 mis. Rydym eisoes yn gwneud gwahaniaeth drwy gymryd camau i ddarparu gwasanaeth mwy tosturiol, ond rydym yn cydnabod y bydd yn cymryd amser i bobl deimlo gwahaniaeth.





# 4.

## Cynnal ein swyddogaethau rheoleiddio craidd eraill, gan gynnwys datblygu ein safonau i gefnogi gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol a diogelu'r cyhoedd

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar osod ac esblygu ein safonau i ddiwallu anghenion y gweithlu heddiw, tra'n sicrhau bod y safonau'n parhau'n addas ar gyfer y dyfodol. Ein swyddogaethau rheoleiddio craidd eraill yw sicrhau ansawdd addysg, cofrestru (domestig a rhyngwladol) ac ail-ddilysu.

Byddwn hefyd yn symud ymlaen â phedwar maes gwaith allweddol sy'n hanfodol i ymarfer proffesiynol nyrsio a bydwreigiaeth: y Cod, ailddilysu, dysgu ymarfer ac ymarfer uwch.Rydym yn rhoi ein gwaith mewn trefn i wneud yn siŵr y gallwn gydweithio'n eang ac effeithiol gyda'n rhanddeiliaid a'r cyhoedd:

- Byddwn yn dechrau ar y gwaith o foderneiddio'r **Cod** ac **ailddilysu** yn 2025-2026. Byddwn yn anelu at ymgynghori rhwng Gorffennaf a Hydref 2026. Bydd y Cod modern a'r broses ailddilysu yn dod i rym ym mis Hydref 2027.
- Byddwn yn ymgynghori ar newidiadau i'n **gofynion dysgu ymarfer** rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2026, gyda'r bwriad o drosglwyddo i'r safonau newydd o fis Medi 2026.
- Byddwn yn cyhoeddi **Egwyddorion ar gyfer Ymarfer Uwch** ym mis Mai 2025. Byddwn yn datblygu safonau ar gyfer ymarfer uwch ar gyfer ymgynghoriad yn hwyrach nag a gynlluniwyd, ym mlwyddyn ariannol 2027–2028 (Ebrill i Fawrth).
- Byddwn yn ystyried gofynion ar gyfer **uwch ymarferwyr** fel rhan o'r Cod ac adolygiadau ailddilysu.

# 5.
## Mynd i'r afael â'n heriau mwyaf arwyddocaol

Byddwn hefyd yn rheoli unrhyw risgiau i'n gweithrediadau busnes fel cyflogwr a rheolydd. Mae'r rhain yn cynnwys ein sefyllfa ariannol, uniondeb ein cofrestr, diogelu a sicrwydd ansawdd addysg.

Byddwn yn parhau i gyfeirio ein hadnoddau a'n hymdrechion lle mae eu hangen fwyaf a lle gallant gael yr effaith fwyaf er budd y cyhoedd. Bydd hyn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried yn weithredol a oes gennym yr adnoddau sydd eu hangen arnom i gyflawni rheoleiddio effeithiol.

Ein ffi cadw proffesiynol ar hyn o bryd yw £120 y flwyddyn, a chaiff y ffi ei hadolygu bob blwyddyn. Rydym wedi cadw'r ffi ar yr un lefel am y degawd diwethaf, er gwaethaf cyfnod o chwyddiant sylweddol, er mwyn lleihau'r effaith ar y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr. Fodd bynnag, mae hyn wedi golygu bod ein hincwm wedi gostwng 26% mewn termau real. Nid yw'r sefyllfa hon yn gynaliadwy yn y tymor hir.



# Cam dau

## **Sefydlogi ac ailadeiladu:** gosod y llwyfan ar gyfer twf cynaliadwy

Sefydlogi ein swyddogaethau rheoleiddio, a chyda tîm arwain newydd yn ei le, byddwn yn gallu adeiladu dyfodol cynaliadwy ac effeithiol. Rydym yn cydnabod y gallai ein cynlluniau gael eu heffeithio gan adolygiadau ac argymhellion sydd ar ddod – er enghraifft, rydym wedi comisiynu Ijeoma Omambala KC i ymchwilio i'r ffordd rydym yn ymdrin â phryderon chwythu'r chwiban sy'n cael eu codi, yn ogystal â rhai achosion addasrwydd i ymarfer. Mae'n debygol y bydd rhai addasiadau i'n cynlluniau, a rhywfaint o ailddilyniannu gweithgarwch o fewn cam un neu gam dau, er mwyn sicrhau ein bod yn blaenoriaethu'n barhaus.



# Bydd ein blaenoriaethau yn cynnwys:

- **Cryfhau ein gweithlu a'n diwylliant**: gwreiddio, adolygu a gwella ein mentrau – adeiladu ar y gwaith pobl a diwylliant sylfaenol yng ngham un, i sicrhau ein bod yn cynnal gweithle cadarnhaol a chynhwysol ar gyfer y tymor hir.
- **Rhoi camau blaenoriaeth ar waith**: byddwn yn parhau i ddatblygu dysgu a chamau gweithredu yn dilyn adolygiadau ac ymchwiliadau allanol sy'n gwneud unrhyw argymhellion ar gyfer ein gwaith rheoleiddio, gan ganolbwyntio ar y rhai sy'n cael yr effaith fwyaf ar reoleiddio a diogelu'r cyhoedd.
- **Datblygu ein safonau**: bydd y Cod wedi'i foderneiddio a'r broses ailddilysu yn dod i rym ym mis Hydref 2027. Os bydd canlyniad ein hadolygiad o ddysgu ymarfer yn dangos bod angen diweddaru ein safonau, byddwn yn trosglwyddo i safonau newydd o fis Medi 2026. Byddwn yn datblygu safonau hyfedredd a safonau rhaglenni cysylltiedig ar gyfer ymarfer uwch ar gyfer ymgynghoriad ym mlwyddyn ariannol 2027–2028.



# Cam tri

## **Hybu a gwella:** adeiladu ar ein sylfeini sefydlog



Unwaith y byddwn wedi sefydlogi, byddwn yn symud ein ffocws i harneisio data a thechnoleg i sicrhau ein bod yn rheoleiddio mor effeithiol â phosibl. Byddwn yn ceisio gwella ein perfformiad rheoleiddio, gan flaenoriaethu gwelliannau sy'n cael yr effaith fwyaf ar ddiogelwch y cyhoedd.

# Bydd ein blaenoriaethau yn cynnwys:

- **Cyflawni ein map ffordd data**:
  darparu data cywir a hygyrch i'n timau rheoleiddio a'n partneriaid i alluogi gwell defnydd o fewnwelediad sy'n gwella rheoleiddio a chynllunio gweithlu strategol.
- **Moderneiddio ein deddfwriaeth**:
  byddwn yn chwilio am gyfleoedd i foderneiddio ein deddfwriaeth drwy ymgysylltu â llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig ar eu hagendâu diwygio rheoleiddio, er enghraifft cyflwyno cymdeithion nyrsio ar draws y gwledydd datganoledig. Yn ogystal, rydym hefyd yn gobeithio gwella effeithlonrwydd a thegwch ein gwaith rheoleiddio.
- **Trosoli technolegau newydd**:
  byddwn yn defnyddio technoleg uwch i gynyddu effeithlonrwydd gweithredol a gwella profiad staff yr NMC a'r cyhoedd sy'n ymgysylltu â'n prosesau rheoleiddio.
- **Gorffen gwaith ar ein safonau**:
  gyda Chod wedi'i adnewyddu a chanllawiau ailddilysu yn dod i rym ym mis Hydref 2027, byddwn hefyd yn parhau i gwblhau safonau drafft wrth baratoi ar gyfer ymgynghoriad ar ymarfer uwch. Bydd safonau ac unrhyw drefniadau trosiannol yn cael eu cwblhau yn ystod 2027-2028 ac, os oes angen, bydd safonau dysgu ymarfer newydd yn cael eu gweithredu.



Byddwn yn parhau i roi sylw i ddatblygiadau newydd yn ein hamgylchedd y mae'n rhaid i ni eu deall er mwyn rheoleiddio'n dda – megis cynlluniau gweithlu gweinyddiaethau'r DU, a sut mae AI yn cael ei ddefnyddio mewn addysg a gofal iechyd. Byddwn yn aros yn hyblyg ac yn ymateb i newidiadau mewn cymdeithas a'r llywodraeth, i wneud yn siŵr ein bod bob amser yn defnyddio'r dulliau a'r offer gorau i gefnogi arfer da yn y proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio.

# Aros yn hyblyg

Mae’r cynllun hwn yn nodi ein cyfeiriad gan ddefnyddio dull graddol gan ddechrau yn 2025–2026. Byddwn yn monitro ac yn adrodd yn dryloyw ar ein cynnydd ac unrhyw addasiadau sydd eu hangen. Byddwn yn cyhoeddi cynllun wedi’i ddiweddaru yn yr hydref eleni, a fydd yn rhoi mwy o fanylion ar y gweithgareddau rydym yn eu blaenoriaethu o fewn ein map ffordd strategol, yn dilyn derbyn adolygiadau a ragwelir a’u hargymhellion.

Byddwn yn parhau i fod yn ystwyth – gan ddysgu o adolygiadau ac ymholiadau allanol sydd ar ddod a harneisio arbenigedd, adborth a chyngor gan randdeiliaid, cofrestreion a’r cyhoedd. Bydd hyn yn sicrhau bod ein cynllun yn parhau i fod yn berthnasol ac wedi’i ysgogi i gyflawni’r canlyniadau gorau yn y pen draw i’r cyhoedd rydym yma i’w hamddiffyn, y gweithwyr proffesiynol rydym yn eu rheoleiddio ac NMC ffyniannus.



nmc
Cyngor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth

23 Portland Place,
London W1B 1PZ

+44 20 7637 7181

www.nmc.org.uk

@nmcnews
@nmcuk
@nmcnews
The Nursing and Midwifery Council



Rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon
Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362)